CANLLAWIAU CÔR AETHWY. (Sefydlwyd Fis Ionawr 2013)

1) ENW'R CÔR - Côr Aethwy.

2) YMARFERION - Rhwng 7.30.pm. a 9.00.pm. bob nos Lun yn ystod tymor ysgol. O bosib y bydd ambell ymarfer yn para rhyw ychydig yn hwy na hyn pan fyddwn yn paratoi ar gyfer cystadleuaeth neu gyngerdd.

3) Derbynnir aelodau newydd ar sail balans ac ansawdd ac o hyn allan byddwn yn clyweld y darpar aelodau newydd, os na fyddwn yn gyfarwydd â'u cefndir corawl/lleisiol.

4) Bydd y côr yn canu amrywiaeth o gerddoriaeth ac yn teithio i gystadlu ac i gynnal cyngherddau.

5) Anelir at fod yn gôr o ansawdd uchel ac felly rydym yn awyddus i gael presenoldeb uchel mewn ymarferion a pherfformiadau. Os bydd lefel presenoldeb yn gostwng dan 75% mewn tymor yna bydd rhaid trafod y ffordd orau o godi'r cyfartaledd.

6) Bydd copïau o'n darnau newydd i'w cael ar ein gwefan o hyn allan. Cyfrifoldeb yr unigolyn o hyn ymlaen felly yw i forol am ei gerddoriaeth ei hun. Gellir gwneud copïau brys yn yr ysgol ond cyfrifoldeb yr unigolyn wedyn fydd talu am y copi hwnnw.
DEFNYDDIWR/USERNAME - aelodau
CYFRINAIR/PASSWORD - chwerthin

7) GWISG - Ar hyn o bryd mae'r côr yn gwisgo cymysgedd o llwyd-las golau/tywyll yn ogystal â du a mymryn o wyn a llwyd. Lliwiau chwarelyddol cadarn! Cyfrifoldeb pob aelod yw i forol am ei wisg ei hun.

8) PWYLLGOR Y CÔR. (SWYDDOGAETHAU) Bydd y pwyllgor yn cyfarfod ar ddechrau pob tymor i drafod a threfnu gweithgaredd, sicrhau ein bod yn talu costau'r cyfeilydd, gwresogi y neuadd a thalu am gopiau a mân gostau eraill megis tâl cystadlu, bysiau ayyb. 1)Ysgrifenydd - 2) Trysorydd - 3) 2 drefnydd teithiau - 4) Trefnydd lleoli. 5) Gwefan. + 2 aelod arall

9) Os byddwch yn dewis rhoi'r gorau i'r côr am unrhyw reswm byddai'n ddymunol cael rhywfaint o rybudd pan yn gadael. Byddai rhyw ddau fis yn ddymunol.

10) Fel pob côr arall, bydd angen codi arian o bryd i'w gilydd i gynnal costau'r côr. Byddai'n ddymunol cael cefnogaeth gref gan aelodau'r côr i unrhyw achlysur lle y byddwn yn codi arian. Ac os gŵyr unrhyw aelod am fodd o gael cefnogaeth ariannol yna rhowch wybod i unrhyw aelod o'r pwyllgor am eich syniadau.